



COFNODION | MINUTES



Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf Community Council (CCLIME)
Llyfrgell Benllech Library
22.6.2026 @ 19:00

Cynghorwyr:
Councillors:

John Humphreys (Is-Gadeirydd / Vice Chair)
Huw G Owen (HGO)
Wenda Owen (WO)
Gwyneth Davies (GD)
Barbara Price (BP)
Sioned Wyn (SW)
Rhys Jones (RhJ)
Rhian Mair Jones (RhMJ)
Olwen Green (OG)

Siaradwr Gwadd:
Guest Speaker:

Y Cynghorydd Sir Euryrn Morris *County Councillor*

Clerc:
Clerk:

Laura Sutton (LS)

Cyfieithydd:
Translator:

Rhiannon Elis-Williams

Cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd | *The meeting was chaired by the Vice-Chair in the absence of the Chair.*

Ymddiheuriadau | Apologies

Kevin Griffiths (KG)
Iwan Kellett (IK) - (Cadeirydd / Chair)
Eira Fôn Parry (EFP)
Rhodri Owen (RhO)
Ieuan Williams (IW)

Datganiad o diddordeb | Declaration of Interest

Dim | *None*

Cyfanogiad y Cyhoedd | Public Participation

Dim | *None*

4. Cofnodion Blaenorol | Previous Minutes 18 – 05 - 2026

Cynigiwyd (WO), eiliwyd (GD) a chytunwyd yn unfrydol derbyn y cofnodion hyn fel cofnod cywir | *It was proposed (WO), seconded (GD) and agreed unanimously to accept these minutes as a true record.*

5. Cynllunio | Planning

Penderfyniadau Cynllunio – Nodwyd | *Planning Decisions – Noted*

6. Materion y Cyngor a'r Gymuned | Council & Community Matters

6.1 Sesiwn gwylio cyflymder Llanbedrgoch | Llanbedrgoch Speed watch session

Derbyniwyd diweddariad ar y sesiwn Gwyllo Cyflymder a gynhaliwyd yn Llanbedrgoch. Nodwyd bod 25 o gerbydau wedi'u cofnodi yn teithio rhwng 26mya a 45mya o fewn y parth 20mya | *An update was received regarding the Speed Watch session held in Llanbedrgoch. It was noted that 25 vehicles were recorded travelling between 26mph and 45mph within the 20mph zone.*

6.2 Llythyr gan breswilydd | Letter from resident

Rhannwyd y llythyr gyda'r Aelodau. Trafodwyd y pryderon a godwyd a nodwyd bod y Cyngor wedi gwneud nifer o welliannau dros amser mewn ymateb iddynt. Cadarnhawyd bod y ddwy fainc wedi'u hadleoli a'u diogelu, a bod y panel ffens rhydd wedi'i atgyweirio o fewn pythefnos i dderbyn y llythyr oherwydd ystyriaethau iechyd a diogelwch. Cytunwyd i ymateb i'r preswilydd, gan nodi bod y Cyngor yn cydnabod yr angen am ddarpariaeth ychwanegol i blant hŷn a phobl ifanc gymdeithasu, a bod hyn yn flaenoriaeth dros y 12 mis nesaf. Nodwyd hefyd mai mater i'r Heddlu yw unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol neu dresmasu | *The letter was shared with Members. The concerns raised were discussed and it was noted that the Council has made a number of improvements over time in response. It was confirmed that the two benches had been relocated and secured, and the loose fence panel repaired within two weeks of receipt of the letter due to health and safety considerations. It was agreed to respond to the resident, noting that the Council recognises the need for additional provision for older children and young people to socialise, and that this will be a priority over the next 12 months. It was also noted that any anti-social behaviour or trespassing is a matter for the Police.*

6.3 Prosiect Ardal Ieuenctid – Diweddariad a Thendr | Youth Area Project – Update and Tender

Derbyniodd yr Aelodau ddiweddariad gan y Pwyllgor Datblygu Prosiectau a'r Clerc ynghylch y cynlluniau diwygiedig ar gyfer datblygu'r Ardal Ieuenctid. Esboniwyd fod y cynlluniau wedi'u symleiddio er mwyn gwneud y prosiect yn fwy cyflawnadwy o fewn yr amserlen a nodwyd gan y grant, sef mis Hydref 2026. Cytunwyd bod y cynlluniau diwygiedig yn fwy realistig ac y dylid parhau â'r prosiect, p'un a fyddai'r cais grant yn llwyddiannus ai peidio. Cytunodd y Cyngor fod y Clerc yn symud ymlaen gyda'r gwahoddiad i dendro ar gyfer datblygu'r safle, ac i barhau â'r trefniadau prydles a'r broses o geisio caniatâd cynllunio. Cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd, pe bai'r cais am gyllid yn aflwyddiannus, y dylid ystyried cyflwyno cais am gyllid ar gyfer darparu meinciau a byrddau picnic ledled y gymuned fel prosiect amgen. Oherwydd yr amserlen dynn sy'n gysylltiedig â'r grant, cytunodd y Cyngor i ddirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Datblygu Prosiectau i gyfarfod rhwng cyfarfodydd y Cyngor, os byddai'r cais yn llwyddiannus, er mwyn adolygu tendrau, cynnal ymweliadau safle a gwneud y trefniadau angenrheidiol i symud y prosiect ymlaen, gan sicrhau na fyddai unrhyw oedi diangen i'r prosiect. | *Members received an update from the Project Development Committee and the Clerk regarding the revised plans for the Youth Area project. It was explained that the plans had been simplified to make the project more achievable within the timescale specified by the grant, namely October 2026. It was agreed that the revised plans were more realistic and that the project should continue, regardless of whether the grant application is successful. The Council agreed that the Clerk should proceed with issuing tender invitations for the development of the site and continue with the lease arrangements and planning permission process. It was proposed, seconded and agreed that, should the funding application be unsuccessful, an alternative funding application be pursued for the provision of benches and picnic tables throughout the community. Due to the tight grant timescales, the Council agreed to delegate authority to the Project Development Committee to meet between Council meetings, should the application be successful, to review tenders, undertake site visits and make the necessary arrangements to progress the project and avoid unnecessary delays.*

6.4 Gorchymyn Traffig Arfaethedig (Diweddariad Teithio Llesol) | Proposed Traffic Order (Active Travel update)

Croesawyd y Cynghorydd Sir E. Morris i'r cyfarfod er mwyn ateb unrhyw gwestiynau ynghylch y Gorchymyn Traffig Arfaethedig a'r Prosiect Teithio Llesol. Cafodd yr Aelodau gyfle i drafod y cynigion a gofyn cwestiynau. Cytunwyd bod y Cyngor yn cefnogi'r Prosiect Teithio Llesol a'r trefniadau traffig Arfaethedig | *County Councillor E. Morris was welcomed to the meeting to answer any questions regarding the Proposed Traffic Order and the Active Travel Project. Members were given the opportunity to discuss the proposals and raise questions. It was agreed that the Council supported the Active Travel Project and the proposed traffic arrangements.*

7. Cyllid | Finance

7.1 Trafodion Diweddar | Recent Transactions

05/05/2026	PYMT	Rhoddd Ganolfan Llanbedrgoch	Expenses	-£300.00	£25,273.54
08/05/2026	PYMT	Lwfans Aelod Councillor Allowance (25-26)	Expenses	-£208.00	£25,065.54
08/05/2026	PYMT	DH WILLIAMS Install/Secure Bench Lon Pant y Cudyn	Expenses	-£336.00	£24,729.54
15/05/2026	d/d	Plan.com (Ffôn)	Expenses	-£25.97	£24,703.57
20/05/2026	TF	TF ALLAN / OUT	TRANSFER	-£17,000.00	£7,703.57
20/05/2026	PYMT	Cyfieithydd Translator	Expenses	-£59.70	£7,643.87
20/05/2026	PYMT	Vynyls4U - Arwyddion Bus Stop Signs	Expenses	-£291.60	£7,352.27
20/05/2026	PYMT	Zurich Insurance	Expenses	-£1,656.38	£5,695.89
26/05/2026	S/O	Cyflog y Clerc Salary	COSTAU STAFF / STAFF COSTS	-£1,969.75	£3,726.14
29/05/2026	Credit	Donation to Language Project Prosiect Iaith	Other Income	£12.00	£3,738.14
01/06/2026	S/O	Pensiwn Pension	COSTAU STAFF / STAFF COSTS	-£491.12	£3,247.02

Dyddiad/Date	Disgrifiad / Description	Swm / Sum	Balans
31/05/2026	BALANS CYCHWYNNOL		£44,599.50
30/04/2026	LLOG/INTEREST	£31.16	£44,630.66
20/05/2026	TRANSFER IN	£17,000.00	£61,630.66
29/05/2026	LLOG/INTEREST	£33.70	£61,664.36

Balans Cerdyn Credyd | Credit Card Balance 03/06/2026: £38.28

Rhannwyd datganiad y cerdyn credyd gyda'r Aelodau a chafodd y trafodion eu hadolygu | *The credit card statement was shared with Members and the transactions were reviewed.*

Adolygodd y Cyngor y trafodion diweddar a chytunwyd eu bod yn unol â chyllideb a gwerthoedd y Cyngor, ac ni chodwyd unrhyw bryderon. Atgoffodd y Is-Cadeirydd yr Aelodau fod balans y cyfrif wrth gefn yn uchel oherwydd cynlluniau yn y dyfodol i ddatblygu ardal chwarae yn y gymuned | *The Council reviewed the recent transactions and agreed that all transactions were in line with the Council's budget and values, and no issues were raised. The Vice-Chair reminded Members that the Reserve Account balance is high due to future plans to develop a play area within the community.*

7.2 Cymodi Banc | Bank Reconciliation

Adolygwyd y cymodiad banc gan yr Aelodau a chafodd ei lofnodi gan yr Is-Gadeirydd | *The bank reconciliation was reviewed by Members and signed by the Vice-Chair.*

7.3 Cymeradwyo Taliadau/ | Payments for Approval

- Nodwyd a chadarnhawyd y taliad brys o **£180** i DH Williams am waith diogelwch yn y parc plant, a oedd wedi'i awdurdodi gan y Clerc, Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a'r Is-Gadeirydd o dan Adran 164 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875. Roedd yr Aelodau yn fodlon â'r gwaith a gwblhawyd a'r taliad cysylltiedig | *The urgent payment of £180 to DH Williams for safety works at the children's park, authorised by the Clerk, Chair of the Council, Chair of the Finance Committee and Vice-Chair under Section 164 of the Public Health Act 1875, was noted and ratified. Members were satisfied with the work completed and the associated payment.*
- Nodwyd bod arolygiad ROSPA o'r parc wedi'i gynnal ar gost o **£114**. Cytunodd yr Aelodau i gymeradwyo'r taliad. | *It was noted that a ROSPA inspection of the park had been undertaken at a cost of £114. Members agreed to approve the payment.*
Trafodwyd canfyddiadau arolygiad ROSPA a chytunwyd i awdurdodi'r Clerc i geisio dyfynbrisiau ar gyfer unrhyw waith atgyweirio angenrheidiol i'r parc plant. Cytunwyd y byddai unrhyw waith a gymeradwyir yn cael ei gyflawni o dan bwerau Adran 164 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875 | *The findings of the ROSPA inspection were discussed and it was agreed to authorise the Clerk to obtain quotations for any necessary repairs to the children's park. It was agreed that any approved works would be undertaken under the powers contained within Section 164 of the Public Health Act 1875.*

7.4 Adroddiad Archwilio Mewnol | Internal Audit report

7.4.1 - Adroddiad Blynyddol 2025–26 | Annual Report 2025-26

7.4.2 - Adroddiad yr Archwilydd Mewnol | *Internal Auditor's Report*

7.4.3 - Datganiad Blynyddol | *Annual Return*

Adolygwyd yr Adroddiad Blynyddol 2025–26, Adroddiad yr Archwilydd Mewnol a'r Datganiad Blynyddol gan yr Aelodau. Nodwyd cynnwys Adroddiad yr Archwilydd Mewnol a chymeradwywyd y dogfennau i'w cyflwyno fel y bo'n briodol. Mynegodd yr Aelodau eu gwerthfawrogiad i'r Clerc am y gwaith a wnaed wrth baratoi'r dogfennau a'r broses archwilio | *Members reviewed the Annual Report 2025–26, the Internal Auditor's Report and the Annual Return. The contents of the Internal Auditor's Report were noted, and the documents were approved for submission as appropriate. Members expressed their appreciation to the Clerk for the work undertaken in preparing the documents and completing the audit process.*

8. Adroddiad y Clerc | *Clerk Report*

8.1 Cais am Wyliau | *Annual Leave Request*

Cymeradwyodd yr Aelodau gais y Clerc am wyliau blynyddol, sef un diwrnod ym mis Gorffennaf a phedwar diwrnod ym mis Awst. Atgoffwyd y Clerc o bwysigrwydd cymryd ei hawl lawn i wyliau Blynyddol | *Members approved the Clerk's annual leave request for one day in July and four days in August. The Clerk was reminded of the importance of taking her full annual leave entitlement.*

8.2 Dyluniad diweddaraf y Prosiect Iaith | *Language Project Latest Design*

Rhannodd y Clerc ddyluniad diweddaraf y cerdyn ymadroddion Cymraeg ar gyfer tafarndai. Roedd yr Aelodau yn falch iawn o'r dyluniad a chytunwyd i awdurdodi'r Clerc i archebu bocs o gardiau gan Vinyls4U er mwyn hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned, o dan Adran 142 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | *The Clerk shared the latest design of the Welsh phrases card for pubs. Members were very pleased with the design and authorised the Clerk to order a box of cards from Vinyls4U to promote and support the use of the Welsh language within the community, under Section 142 of the Local Government Act 1972.*

8.3 Planwyr Cymunedol a Chais am Grant | *Community Planters and Grant Application*

Nodwyd bod grŵp Caru Benllech wedi cytuno i gynnal a chadw'r planwyr cymunedol brown ac wedi cyflwyno cais am grant o £200 i brynu pridd a hadau/planhigion. Adolygodd yr Aelodau'r cais a chytunwyd i ddyfarnu grant o £200 i gefnogi'r gwaith o gynnal a gwella amwynder cymunedol y Cyngor. Nodwyd bod y trefniant yn cyfrannu at gynnal ased cymunedol ac y dyfarnwyd y grant o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | *It was noted that the Caru Benllech group had agreed to maintain the brown community planters and had submitted a grant application for £200 to purchase soil and seeds/plants. Members reviewed the application and agreed to award a grant of £200 to support the maintenance and enhancement of a Council community amenity. It was noted that the arrangement contributes towards the upkeep of a community asset and that the grant was awarded under Section 137 of the Local Government Act 1972.*

8.4 Gwastraff Cyfrinachol | *Confidential Waste*

Mynegodd y Clerc bryder ynghylch gwaredu gwastraff cyfrinachol o swyddfa'r llyfrgell a'r swyddfa gartref. Trefnodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, y Cynghorydd S. Wyn, i gwmni lleol Antur Waunfawr ddarparu gwasanaeth casglu gwastraff cyfrinachol am gost o £8 ynghyd â TAW y bag. Cytunodd yr Aelodau fod hwn yn drefniant angenrheidiol ac roeddent yn fodlon â'r gost, gan gytuno i barhau â'r gwasanaeth | *The Clerk expressed concerns regarding the disposal of confidential waste from the library office and home office. The Chair of the Finance Committee, Cllr S. Wyn, arranged for local company Antur Waunfawr to provide a confidential waste collection service at a cost of £8 plus VAT per bag. Members agreed that this was a necessary arrangement and were satisfied with the cost, agreeing to continue with the service.*

9. Unrhyw faterion nad ydynt ar yr agenda | *Any Additional Matters Discussed, not on the agenda.*

- **RhMJ** nododd ei siom ynghylch y defnydd o arwyddion mawr uniaith Saesneg y tu allan i'r llety gyferbyn â'r fynwent. Cytunodd yr Aelodau nad dyma'r hyn a ddeallwyd nac a drafodwyd yn flaenorol, ac y dylai'r arwyddion fod yn ddwyieithog. Gofynnwyd i'r Clerc ymchwilio i'r mater a chyfleu

siom y Cyngor ynghylch y sefyllfa | *RhMJ expressed disappointment regarding the large English-only signage outside the lodges opposite the cemetery. Members agreed that this was not what had previously been understood or discussed and that the signage should be bilingual. The Clerk was asked to investigate the matter and convey the Council's disappointment regarding the situation.*

- **SW** nododd fod angen adnewyddu'r meinciau wrth yr eglwys. Bydd y clerc yn ceisio dyfynbrisiau | *SW noted that the church benches require refurbishment. The Clerk will seek quotes.*
- **RhJ** nododd y byddai'n hoffi gweld dau blannwr newydd neu gerrig enw ar gyfer Lôn Bwlch a Llanfair Mathafarn Eithaf wrth y gyffordd ger y fynwent. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn dod â'r mater yn ôl i gyfarfod nesaf y Cyngor | *RhJ noted that he would like to see two new planters or name stones for Lôn Bwlch and Llanfair Mathafarn Eithaf at the junction by the cemetery. It was agreed that the Clerk would bring the matter back to the next Council meeting.*
- **HGO** nododd bryder ynghylch y posibilrwydd o golli amlder gwasanaethau bysiau drwy Draeth Coch a gofynnodd i'r Clerc wneud ymholiadau ynghylch cynlluniau'r dyfodol ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus yn yr ardal | *HGO expressed concern regarding the potential reduction in bus service frequency through Red Wharf Bay and asked the Clerk to make enquiries regarding future public transport plans for the area.*
- **BP** nododd fod angen torri llystyfiant ar lwybr troed a byddai'n darparu manylion y lleoliad i'r Clerc, a fyddai'n eu hanfon ymlaen at gontractwyr torri gwair | *BP noted that vegetation requires cutting on a footpath and would provide the location details to the Clerk, who would forward them to the grass-cutting contractors.*
- **WO** nododd bryderon ynghylch difrod posibl i eiddo ar y naill ochr a'r llall i'r ffordd lle mae'r ffordd yn culhau yng nghanol Llanbedrgoch. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir ynghylch adolygiad posibl o'r trefniadau traffig yn y lleoliad hwnnw ac awgrymu system blaenoriaeth i draffig | *WO raised concerns regarding potential damage to properties where the road narrows in the centre of Llanbedrgoch. The Clerk was asked to contact the County Council regarding a possible review of the traffic arrangements and to suggest a priority system for traffic at this location.*
- **WO** nododd hefyd y byddai palmant ar hyd y brif ffordd yn Llanbedrgoch yn opsiwn mwy diogel i gerddwyr a gofynnwyd i'r Clerc holi a fyddai'r Cyngor Sir yn fodlon adolygu'r posibilrwydd hwn | *WO also noted that a pavement along the main road through Llanbedrgoch would provide a safer route for pedestrians and requested that the County Council review this possibility.*
- **Gofynnodd yr Aelodau** i'r Clerc ymchwilio i'r posibilrwydd o drefnu astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer y tir y tu ôl i Neuadd Goronwy | *Members requested that the Clerk investigate the possibility of arranging a feasibility study for the land behind Goronwy Hall.*
- **GD** nododd fod llawer o chwyn ar hyd yr ardal balmantu newydd ger Breeze Hill a gofynnwyd i'r Clerc dynnu hyn at sylw'r Cyngor Sir | *GD noted that there is significant weed growth on the new pavement area near Breeze Hill and requested that this be raised with the County Council.*
- **GD** nododd hefyd bryderon ynghylch diogelwch y trefniadau parcio ger Bwyty 'The Shed' a gofynnwyd am adolygiad o'r sefyllfa | *GD also expressed concerns regarding the safety of parking arrangements near 'The Shed' restaurant and requested that the situation be reviewed.*

Daeth y cyfarfod i ben am 20:30 | The meeting closed at 20:30

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf **27/07/2026** Date of Next Meeting